



Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Adroddiad ar y Cynllun Iaith Gymraeg 2013

Rhagarweiniad

Adroddiad gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar weithrediad ei Gynllun Iaith Gymraeg ar sail gweithgareddau a gyflawnwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013 yw hwn. Hwn yw adroddiad cyntaf yr Asiantaeth ers newid o fod yn un o Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i fod yn un o Asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 1 Ebrill.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar ôl ystyried y fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd fel y cytunwyd arno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Medi 2010.

Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Roedd cynllun diwygiedig yr Asiantaeth a gyflwynwyd yn 2009 yn nodi gweithgareddau oedd i'w darparu dros y tair blynedd hyd at 2012. Yn ôl yr amserlen, dylid bod wedi cyhoeddi Cynllun newydd yn 2012. O dan y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2012, cafodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ei ddileu a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC) ei chreu yn ei le. Penderfynwyd trosglwyddo Cynllun presennol y Comisiwn / Asiantaeth tan 2013 gan hysbysu Comisiynydd y Gymraeg o'r bwriad hwn yn 2012.

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd yn erbyn y gweithgareddau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol hyd yma.

Cynllun ACC – Gweithredu Cytunedig	Cynllun ACC – Amserlen Gychwynnol	Cynnydd yn 2012-2013
<p>Polisiau a rhaglenni newydd (para. 4)</p> <p>1. Statws cyfartal i'w roi i'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw bolisi a gweithdrefn newydd neu wrth ystyried effaith polisiau a rhaglenni'r llywodraeth.</p>	<p>Byddwn yn gweithredu proses ffurfiol i sicrhau bod unrhyw bolisi a gweithdrefn newydd yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Cynllun hwn ac o fewn chwe mis i'w weithredu.</p>	<p>Gweithredu wedi'i gwblhau</p> <p>Mae ein dogfennau asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys gofyniad i ystyried darpariaeth yn Gymraeg fel rhan o unrhyw bolisi a gweithdrefn newydd a weithredir.</p> <p>Fodd bynnag, yn 2010/11, symudodd y gwaith o <u>greu</u> polisi i ddod o dan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a daeth yr ACC yn gorff sy'n <u>gweithredu</u> polisi. Felly, mae'r cyfrifoldeb am gydraddoldeb y Gymraeg yn y cyswllt hwn hefyd wedi symud i fod o dan y Weinyddiaeth</p>

Cynllun ACC – Gweithredu Cytunedig	Cynllun ACC – Amserlen Gychwynnol	Cynnydd yn 2012-2013
		<p>Cyfiawnder o dan delerau ei Chynllun Iaith Gymraeg hi.</p> <p>Mae darpariaeth yn Gymraeg wedi'i chynnwys yn y dogfennau ar asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyswllt holl waith <i>gweithredu</i> polisi'r ACC.</p> <p>Mae problem o hyd gyda chyhoeddi ffurflenni'n ddwyieithog ar yr un pryd â'r rhai Saesneg a cheir adegau pan fydd ffurflenni Saesneg yn ymddangos ar y gwefannau cyn y rhai dwyieithog. Rydym yn parhau i leihau ac, yn ddelfrydol, i ddileu nifer yr adegau pan fydd hyn yn digwydd.</p>
<p>Gwefannau ar y we (para. 32)</p> <p>2. Bydd y wefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p>Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad llawn yn rhoi sylw i faint o wybodaeth a ddarperir yn ddwyieithog ar ein gwefannau.</p>	<p>Mae cynllun gweithredu yn ei le i wneud hyn.</p> <p>Byddwn yn cynnal adolygiad llawn o faint o wybodaeth a ddarperir yn ddwyieithog ar wefan yr LSC ac yn dyfeisio cynllun gweithredu i gynyddu cynnwys dwyieithog y wefan o fewn chwe mis i weithredu'r Cynllun hwn.</p>	<p>Gweithredu wedi'i gwblhau</p> <p>Roedd y wefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yn gwbl ddwyieithog erbyn Mehefin 2009. Mae'r wefan hon bellach wedi'i throsglwyddo i wefan Direct.gov fel rhan o raglen ehangach gan y llywodraeth ac yn parhau i fod yn ddwyieithog.</p> <p>Mae cynnwys gwefan yr ACC www.legalservices.gov.uk yn y broses o gael ei symud i wefan www.justice.gov.uk. Cawsom un gŵyn gan gyfreithiwr yn dweud nad oedd yn hawdd dod o hyd i'r ffurflenni Cymraeg. Rydym wedi cymryd camau gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i wella'r ddolen i'r wefan. Rydym hefyd wedi gofyn bod y ddolen i'r ffurflenni'n cael ei rhoi ar wefan Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru (is-grŵp o Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg) a bod ein hadran Gyfathrebu'n cyhoeddi e-rybudd i gyfreithwyr gyda'r ddolen.</p>

Cynllun ACC – Gweithredu Cytunedig	Cynllun ACC – Amserlen Gychwynnol	Cynnydd yn 2012-2013
<p>Cyhoeddiadau (para. 30)</p> <p>3. Byddwn yn cynhyrchu'r holl ddeunyddiau a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog mewn un ddogfen oni bai fod maint neu gymhlethdod y ddogfen yn gofyn bod angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.</p>	<p>Eisoes wedi'i weithredu ac yn parhau i gael ei wneud gyda dogfennau sy'n deillio o Gymru. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau eraill a gyhoeddir yn cwrdd â'r gofyniad hwn lle mae'n rhesymol ac ymarferol gwneud hynny. O fewn chwe mis i fabwysiadu'r Cynllun, byddwn yn adolygu'r holl gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd ac yn paratoi cynllun gweithredu.</p>	<p>Gweithredu wedi'i gwblhau</p> <p>Ni ychwanegwyd unrhyw ddogfennau ychwanegol at y rhestr o ddogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym yn cynhyrchu ffurflenni a ddefnyddir gan y cyhoedd, y Cynllun Busnes, y Cynllun Strategol ac Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth i gyd mewn fformat dwyieithog</p> <p>O'r blaen rydym wedi nodi'r trafferthion a gawsom gyda chynhyrchu dogfennau / gohebiaeth yn ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru pan gynhyrchir dogfennau / gohebiaeth drwy ein system gyfrifiadurol CIS. Cafodd y mater hwn ei ystyried gan Dîm Gweithredol yr LSC ar ddechrau 2012 oedd o'r farn nad oedd yn bosibl newid y system CIS i gynhyrchu mewn fformat dwyieithog oherwydd y gost a'r risg, ac mae'r system yn y broses o gael ei datgomisiynu.</p> <p>Ni fwriedir i system newydd yr ACC a ddaw yn lle ei system rheoli achosion sifil (CCMS) fod ar gael i'r cyhoedd, dim ond i aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol sydd â contract cymorth cyfreithiol â'r ACC, felly dim ond yn Saesneg fydd y system hon ar gael. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddogfennau sydd angen i'r cleient eu llofnodi ar gael yn Gymraeg.</p>
<p><u>Mesurau i ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru (para. 26)</u></p> <p>4. Byddwn yn ymgynghori gyda'n cyflenwyr dan gontract yng Nghymru i nodi pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol y dylem eu darparu</p>	<p>Byddwn yn cynnal arolwg o'n darparwyr o fewn tri mis i weithredu'r Cynllun hwn i sefydlu pa wasanaethau dwyieithog ychwanegol fydd eu hangen arnynt a, lle mae'n</p>	<p>Gweithredu wedi'i gwblhau</p> <p>Ni nodwyd unrhyw ofynion gwasanaeth dwyieithog ychwanegol yn yr arolwg a wnaed gennym yn 2011/12 – atodwyd canlyniadau'r arolwg wrth yr</p>

Cynllun ACC – Gweithredu Cytunedig	Cynllun ACC – Amserlen Gychwynnol	Cynnydd yn 2012-2013
<p>a, lle mae'n rhesymol i ni wneud hynny, byddwn yn gweithredu'r gwasanaethau hynny.</p>	<p>rhesymol i ni wneud hynny, byddwn yn llunio cynllun i weithredu'r gwasanaethau hynny.</p>	<p>adroddiad blynyddol am 2012 i Gomisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn parhau i gynnal y ddarpariaeth bresennol yn Gymraeg yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.</p>
<p>Gohebiaeth a Galw'n Bersonol (para. 15 a 25)</p> <p>5. Byddwn yn cadw cofnod cyfredol o enwau unigolion a sefydliadau a ddywedodd eu bod am dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Byddwn yn cyflwyno system i sefydlu pa iaith y dymunir ei defnyddio ar y pwynt cyswllt cyntaf ac yn cofnodi'r dewis hwnnw at ddefnydd yn y dyfodol drwy sicrhau bod ffeiliau a chofnodion wedi eu marcio'n glir.</p> <p>Byddwn hefyd yn cyflwyno system i gofnodi manylion unigolion a sefydliadau a ddywedodd eu bod am dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Y ddau beth o fewn chwe mis i weithredu'r Cynllun hwn.</p>	<p>Mae'r weithdrefn hon yn ei lle.</p> <p>Pan fydd pobl yn cysylltu â'r Asiantaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, cofnodir eu manylion yn ganolog.</p> <p>Cawsom un gŵyn gan gyfreithiwr fod bil a gyflwynwyd ar ffurflen Hawliad 1 Gymraeg ac wedi'i llenwi yn Gymraeg wedi'i ddychwelyd gyda chwestiwn ynghylch taliad, ond bod y llythyr yn codi'r cwestiwn wedi'i anfon yn Saesneg a chafodd y bil ei ddychwelyd. Cafodd y sefyllfa ei datrys ac atgoffwyd y tîm bilio yn yr Adran Gyllid bod angen ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg.</p>
<p><u>Gweithredu, monitro a chyhoeddi'r Cynllun hwn (para. 47)</u></p> <p>6. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw awgrym i wella ein gwasanaethau yn Gymraeg a byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n proses fonitro.</p>	<p>O fewn chwe mis i weithredu'r Cynllun hwn byddwn yn cyflwyno system i holi ymwelwyr Cymraeg eu hiaith â'n swyddfeydd am ein gwasanaethau yn Gymraeg i sefydlu unrhyw awgrym ar gyfer eu gwella. Byddwn yn trefnu i weithredu'r awgrymiadau hyn lle mae'n rhesymol i ni wneud hynny.</p>	<p>Gweithredu wedi'i gwblhau</p> <p>Hyd yma ni ddaeth unrhyw gleientiaid Cymraeg eu hiaith i'n swyddfeydd yng Nghymru.</p> <p>Byddwn yn sicrhau y gofynnwn am adborth gan unrhyw ymwelwyr Cymraeg eu hiaith â'n swyddfa yng Nghymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ACC wedi cyhoeddi ei Chynllun Iaith Gymraeg, a'i rhif ffôn Iaith Gymraeg, ar ei gwefan (ar y dudalen gyhoeddiadau). • Yn ogystal, mae poster i fyny yn y Dderbynfa yn swyddfa Cymru'n rhoi gwybod i ymwelwyr bod yr ACC yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

Cynllun ACC – Gweithredu Cytunedig	Cynllun ACC – Amserlen Gychwynnol	Cynnydd yn 2012-2013
		<ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd cleientiaid yn ffonio'r ACC ar y rhif 0300 200 2020 sydd wedi'i argraffu ar ohebiaeth, clywir neges wedi'i recordio'n dweud wrth y cleient os ydynt am gynnal y sgwrs yn Gymraeg y medrant ffonio'r rhif Cymraeg ar 0845 6099989.

Prif Ffrydio'r Iaith Gymraeg

I sicrhau bod darpariaethau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried cyn gynted ag y bo modd, mae ein dogfennau safonol ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys nodyn atgoffa ar weithredu polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar ddechrau unrhyw brosiect i weithredu polisi newydd.

Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i gael mynediad at Cysgliad a Microsoft Cymraeg ar ein system TG fewnol.

Cawsom nifer o brosesau i dendro am waith cymorth cyfreithiol yn 2012 ac mae pob un o'n contractau â darparwyr yn cynnwys cymalau penodol ar ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i gleientiaid cymorth cyfreithiol yng Nghymru.

Dangosyddion Perfformiad

PI1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Ar hyn o bryd mae gennym ddau aelod o staff dwyieithog sy'n gweithio'n benodol a llawn amser ar ein gwasanaethau yn Gymraeg, sef 8.3% o'r tîm gwasanaethau cwsmer yng Nghymru. (Mae aelod ychwanegol o'r tîm prosesu busnes yn swyddfa Cymru sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu cynorthwyo os oes angen). Y staff yma sy'n ateb y llinell ffôn iaith Gymraeg a hefyd yn cynorthwyo gyda phrawf-ddarllen a chyfieithiadau ad-hoc. Yn ogystal, mae gennym ddau aelod arall o staff dwyieithog mewn gwahanol adrannau yn swyddfa Cymru sy'n gallu sefyll i mewn i ddarparu gwasanaethau Cymraeg os oes angen.

Yn ddiweddar, cawsom ein canmol gan Lowri Morgan, Rheolwr Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru, a ddywedodd fod y cyfreithwyr yng Ngogledd Cymru wedi dweud wrthi fod y gwasanaeth oedd ar gael ar y llinell ffôn iaith Gymraeg yn swyddfa Cymru o safon uchel iawn a bod y gweithwyr achos Cymraeg eu hiaith yn wybodus iawn.

Rydym yn cadw log misol o'r galwadau ffôn a dderbyniwn drwy'r llinell ffôn Gymraeg. Rhwng Ebrill 2012 a diwedd Mawrth 2013, cawsom 932 o alwadau, cynnydd o 386 o alwadau (59%) ar y 12 mis blaenorol. Ymholiadau gan gyfreithwyr yw'r rhain yn bennaf o hyd, er ein bod hefyd yn derbyn galwadau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Hefyd cyflawnir rhywfaint o fusnes arferol o ddydd i ddydd yn awtomatig yn Gymraeg drwy alwadau ffôn uniongyrchol i staff Cymraeg eu hiaith yn yr ACC a chan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a staff mewn asiantaethau eraill. Ni chofnodir y galwadau hyn yn yr ystadegau uchod. Felly hefyd, rydym yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth ac e-byst a dderbyniwn yn Gymraeg.

PI2 Darparu Gwasanaethau Drwy Drydydd Partïon

Mae pob un o'n contractau cymorth cyfreithiol â'n darparwyr wyneb yn wyneb yn cynnwys gofynion penodol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yng Nghymru. Mae cwmnïau'n cydymffurfio naill ai drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg neu drefniadau i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg drwy gyfeirio'r achos at gyfreithwyr Cymraeg eu hiaith os bydd cleient yn gofyn.

Mae tri contract i ddarparu gwasanaethau ffôn ar ein rhan yn cynnwys cymalau penodol ar ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Mae darparwyr y tri contract yn cyflogi gweithwyr achos sy'n siarad Cymraeg a chaiff eu contractau eu monitro'n fisol.

PI3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

Mae un aelod o staff wrthi'n astudio'r cwrs Canolradd yn Gymraeg ym Mhrifysgol Morgannwg.

Mae pedwar aelod o staff wrthi'n derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg a ddarperir gan HMCTS i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Maent yn gwneud hyn yn ystod oriau swyddfa'n defnyddio eu hamser eu hunain o dan y system oriau hyblyg.

Cafodd bedwar aelod newydd o staff eu recriwtio i'r tîm prosesu busnes yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf ac maent i gyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth iaith Gymraeg a gynigiwn. Rydym yn parhau i gael cyfarfodydd sgwrsio anffurfiol a rheolaidd â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar sail wirfoddol.

PI4 Technoleg Gwybodaeth

Rydym wrthi'n datblygu system TG newydd i ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Ni fydd yn ddwyieithog oherwydd ni fydd y cyhoedd yn ei ddefnyddio.

PI5 Gweinyddu'r Cynllun

Dim ond dau gŵyn a dderbyniwyd ynghylch ein darpariaeth yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Rhoddir manylion y rhain uchod.

Casgliad

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg gyda llai o gyllideb a mwy o bwysau ar ein hadnoddau.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei ddiweddarau i newid pob cyfeiriad at y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i gyfeirio at yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, ynghyd â'r logos cysylltiedig.

Matthew Coats

Prif Weithredwr, Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol